Image not found or type unknown

# Prif ganfyddiadau o’r monitro diwedd flwyddyn 2023 i 2024 ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 March 2025

Diweddariad olaf: 25 March 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/prif-ganfyddiadau-or-rhaglen-datblygu-gweithlu-gofal-cymdeithasol-cymru am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) yn rhaglen grant hir-sefydlog i gefnogi hyfforddiant a datblygu’r gweithlu ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydyn ni wedi cyhoeddi yr adroddiad themau a chanfyddiadau cenedlaethol o sut fuddsoddwyd y grant SCWWDP gan y rhanbarthau yn 2023 i 2024.

## Prif ganfyddiadau

Prif ganfyddiadau 2023 i 2024 yw:

- yn gyffredinol, mae’r cyfanswm gwariant ar SCWWDP wedi cynyddu 1.8 y cant (£219,086) o £12,475,258 i £12,694,344.
- roedd cynnydd o 9.2 y cant yn y gwariant ar staff sy’n darparu dysgu a datblygu uniongyrchol
- bu bron i hanner yr awdurdodau lleol (45.5 y cant) weld cynnydd mewn presenoldeb hyfforddiant ar draws y sector.

Bu i’r grant SCWWDP:

- gefnogi rhaglenni dysgu a datblygu ym mhob un o’r saith rhanbarth yng Nghymru, gyda thuedd barhaus o ddarpariaeth ar lefel leol
- gefnogi 1,889 o ddysgwyr cymwysterau galwedigaethol, cynnydd o 3.3 y cant ers y llynedd
- gefnogi 1,356 o bobl ar hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol, cynnydd o 15.9 y cant ers y llynedd
- gefnogi 996 o bobl gyda hyfforddiant ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol, cynnydd o 16.8 y cant ers y llynedd

- gefnogi 448 o bobl gyda dyfarniadau arbenigol ôl-gymhwyso gwaith cymdeithasol, er enghraifft ymarfer galluogi, asesydd budd gorau a Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP). Roedd hyn yn gynnydd o 15.2 y cant ers y llynedd
- ddarparu 135,169 o leoedd hyfforddi gyda phresenoldeb o 82.8 y cant
- helpu i gynyddu presenoldeb mewn hyfforddiant gwasanaethau ehangach fel iechyd, yr heddlu, addysg, gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn gynnydd o 28.2 y cant ers y llynedd.

## Datblygiadau'r dyfodol

Rydyn ni wedi nodi nifer o ddatblygiadau’r dyfodol sy’n cael eu disgrifio’n fanylach yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- creu darlun llawnach o ddatblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru
- monitro’r risg o fuddsoddi mwy mewn gwaith cymdeithasol
- cryfhau canllawiau grant
- y nifer sy’n manteisio ar hyfforddiant a’u presenoldeb yn adlewyrchu proffil y sector
- mesur effaith .

Mae’r adroddiad llawn ar gael mewn fformat Microsoft Word isod.

I gael gwybod mwy am y cyfleoedd i ddatblygu’r gweithlu gofal cymdeithasol yn eich ardal leol, cysylltwch â thimau datblygu’r gweithlu yn eich awdurdod lleol.

## Yr adroddiad llawn mewn fformat Microsoft Word

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) monitro diwedd blwyddyn ar gyfer 2023 i 2024: Crynodeb o'r themâu a'r canfyddiadau

DOCX 1MB